THE BEHAVIOURAL INSIGHTS TEAM

# Defnyddio dirnadaeth o ymddygiad ym maes cofrestru pleidleiswyr yng Nghymru

## Adroddiad gan Dîm Behavioural Insights

Awst 2016

## Cynnwys


Defnyddio dirnadaeth o ymddygiad ym maes cofrestru pleidleiswyr yng Nghymru ........ 1

Crynodeb Gweithredol ........ 4

Cyflwyniad ........ 6

Y broses cofrestru pleidleiswyr yng Nghymru ........ 6

Tîm Behavioural Insights ........ 7

Strwythur yr Adroddiad ........ 7

Adolygiad llenyddiaeth ........ 8

Cyflwyniad ........ 8

Dulliau cyfathrebu ........ 8

Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol ........ 9

Amlygrwydd ........ 10

Llunio negeseuon/osgoi colli ........ 10

Negesyddion ........ 11

Normau cymdeithasol ........ 11

Hunanddelwedd ........ 12

Bwriadau gweithredu ........ 13

Cymhellion ........ 13

Casgliad ........ 14

Treial 1 – Treial e-bost gyda Chyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor ........ 15

Y negeseuon e-bost ........ 15

Gweithredu ........ 16

Canlyniadau ........ 17

Ffigur 1: cyfran y myfyrwyr yn cofrestru i bleidleisio (rhwng mis Chwefror a mis Mawrth), yn ôl natur y driniaeth ........ 17

Ffigur 2: cyfran yr unigolion sy'n defnyddio'r ddolen i fynd i'r wefan gofrestru (mis Chwefror a mis Mawrth), yn ôl natur y driniaeth ........ 18

Argymhelliad ........ 19

Treial 2 – Llythyrau Cyngor Abertawe ........ 20

Y llythyrau ........ 20

Gweithredu ........ 22




© Behavioural Insights Ltd

Canlyniadau ........................................................................................................................22

Ffigur 3 – cyfran yr aelwydydd a wnaeth o leiaf un newid i'r gofrestr (Mawrth-Ebrill), yn ôl natur y driniaeth........................................................................................................................23

Ffigur 4 – cyfran yr aelwydydd a ddiwygiodd y gofrestr (Mawrth-Ebrill), yn ôl natur y driniaeth ........24

Ffigur 5 – cyfran yr aelwydydd a aeth ati i ddileu enw o'r gofrestr (Mawrth-Ebrill), yn ôl natur y driniaeth........................................................................................................................25

Argymhelliad ........................................................................................................................26

**Casgliad** ........................................................................................................................ **27**

**Atodiad 1: Copi o negeseuon e-bost Treial 1** ........................................................ **28**

**Atodiad 2: Copi o lythyrau Treial 2** ........................................................ **31**



© Behavioural Insights Ltd

## Crynodeb Gweithredol

Bu Tîm Behavioural Insights (TBI) yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a dau Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddefnyddio dulliau dirnadaeth ymddygiad er mwyn cynyddu'r cyfraddau sy'n cofrestru i bleidleisio.

Roedd y llenyddiaeth ar wyddoniaeth ymddygiad yn awgrymu amrywiaeth o ddulliau posibl i'w defnyddio yn y maes:

- Mae pobl yn gallu oedi cyn gweithredu, ac mae costau uniongyrchol ac anuniongyrchol neu ffactorau anghyfleustra yn effeithio ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn gweithredu.[1] Mae symleiddio proses neu gysylltu gorchwyl â phroses sydd eisoes ar waith yn gallu helpu i oresgyn effeithiau oedi cyn gweithredu.

- Mae pobl yn awyddus i fod â hunanddelwedd gadarnhaol, ac maent yn awyddus iawn i'w gweld eu hunain yn bobl foesol sy'n haeddu cymeradwyaeth gymdeithasol.[2 3] Yn ôl astudiaeth yn yr Unol Daleithiau, roedd cysylltu'r weithred o bleidleisio â phriodweddau hanfodol a hunanddelwedd unigolyn drwy ofyn 'Pa mor bwysig yw hi i chi y byddwch yn bleidleisiwr yn yr etholiad sydd ar y gweill?' yn fwy effeithiol na gofyn 'Pa mor bwysig yw hi i chi y byddwch yn pleidleisio yn yr etholiad sydd ar y gweill?'.[4]

- Mae pobl yn cael eu dylanwadu gan weithredoedd, gwerthoedd a disgwyliadau pobl sydd o'u cwmpas, a'r enw am y cysyniad hwn yw normau cymdeithasol. Mae grym normau cymdeithasol wedi'i amlygu mewn astudiaethau sy'n dangos bod y tebygolrwydd o bleidleisio yn cynyddu pan fydd negeseuon yn pwysleisio bod disgwyl i'r ganran sy'n pleidleisio fod yn uchel yn hytrach nag yn isel (er gwaetha'r ffaith fod *effaith* pleidlais unigolyn yn gryfach pan fydd y ganran sy'n pleidleisio yn isel).[5]

Er mwyn profi defnyddiau posibl y ddealltwriaeth hon, aeth TBI ati i weithio gyda Chyngor Abertawe, Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor ar ddau hap-dreial wedi'i reoli:

- Fel rhan o Dreial 1, bu TBI yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i brofi effaith wahanol tair neges e-bost a anfonwyd at fyfyrwyr er mwyn eu hannog i gofrestru i bleidleisio. Yn y treial hwn, roeddem eisiau canfod a allai graffig amlwg, negeseuon seiliedig ar hunaniaeth ("dod yn bleidleisiwr heddiw") a delwedd o ffigwr democrataidd symbolaidd gynyddu cyfraddau'r rhai sy'n clicio ar ddolen i fynd i'r wefan cofrestru i bleidleisio, a nifer y cofrestriadau.

- Fel rhan o Dreial 2, bu TBI yn gweithio gyda Chyngor Abertawe i brofi effaith bosibl newid y Llythyr Hysbysu Aelwydydd sy'n cael ei anfon i holl aelwydydd Abertawe er mwyn eu hannog i ddiweddaru eu manylion yn y gofrestr. Roedd y treial yn profi'r newidiadau canlynol: symleiddio'r llythyr, cynnwys neges norm cymdeithasol *"Ar hyn o bryd mae dros 90% o bleidleiswyr cymwys yn Abertawe wedi'u cofrestru i bleidleisio"*, cynnwys diagram llif i



© Behavioural Insights Ltd

wahanu'r broses o ddiweddaru manylion yn gamau syml, a symleiddio'r amlen. Amcan y treial oedd cynyddu cyfran yr aelwydydd sy'n newid eu manylion yn y gofrestr etholwyr.

- Ni ddaethom o hyd i unrhyw dystiolaeth bod cynnwys graffig amlwg, neges hunaniaeth neu ddelwedd o ffigwr democrataidd symbolaidd yn cynyddu cyfraddau'r rhai sy'n clicio ar ddolen i fynd i'r wefan cofrestru i bleidleisio, neu nifer y cofrestriadau ymysg myfyrwyr yng Ngwynedd. Yn yr un modd, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod newid y Llythyr Hysbysu Aelwydydd (gan gynnwys ychwanegu neges norm cymdeithasol a darparu diagram o'r broses gofrestru) yn cynyddu cyfran y bobl sy'n newid eu manylion yn y gofrestr. Fodd bynnag, nodwyd bod y llythyr sy'n cynnwys y diagram llif wedi cynyddu'n sylweddol gyfran yr enwau a gafodd eu dileu o'r gofrestr o gymharu â'r llythyr safonol, sy'n golygu bod y gofrestr etholwyr yn fwy cywir. Fodd bynnag, roedd yr un llythyr wedi arwain at leihau cyfran y newidiadau i'r gofrestr. Roedd y cyfuniad o'r llythyr â'r diagram a'r amlen symlach wedi cynyddu nifer yr enwau a gafodd eu dileu o'r gofrestr.

Roedd y prosiect yn wynebu nifer o heriau mawr, gan gynnwys y ffaith fod y ddau hap-ddreial yn cael eu cynnal y tu allan i gyfnod y canfasio blynyddol pan fydd awdurdodau lleol yn gwneud llawer o waith i gynyddu cywirdeb y gofrestr etholwyr. Mae hyn yn golygu y gallai trigolion fod wedi cwblhau'r broses gofrestru eisoes cyn i'r treial gychwyn. Roedd Treial 1 yn wynebu her arall, sef y ffaith nad oeddem yn gwybod a oedd y myfyrwyr y cysylltwyd â hwy eisoes wedi'u cofrestru i bleidleisio, ac yn benodol, a oeddynt wedi'u cofrestru yng nghartref eu rhieni. Yn olaf, o safbwynt Treial 2, nid yw'n ofynnol dychwelyd y Llythyr Hysbysu Aelwydydd os yw manylion cofrestru'r aelwyd yn gywir eisoes, ac nid oedd unrhyw ddata ar gael ar gywirdeb y gofrestr ar ddechrau'r treial (ac felly a ddylai aelwydydd fod wedi ymateb).

O ystyried yr heriau hyn, rydym yn argymell y dylai dulliau profi gwaith i gynyddu nifer y pleidleiswyr sy'n cofrestru yn y dyfodol ganolbwyntio ar fanteisio ar ohebiaeth yn ystod y canfasio blynyddol, pan fydd gan aelwydydd rwymedigaeth gyfreithiol i ymateb a'u bod yn fwy tebygol o gymryd rhan. Rydym yn credu bod gwyddoniaeth ymddygiad yn gallu ychwanegu llawer o werth yng nghyd-destun pleidleisio, a bod angen parhau i brofi dulliau sy'n manteisio ar wybodaeth o'r adolygiad llenyddiaeth er mwyn gwella dulliau gweithredu a nodi'r hyn sy'n gweithio. Fel mae'r treial hwn yn ei ddangos, mae modd cynnal profion yn gymharol hawdd a rhad.



© Behavioural Insights Ltd

## Cyflwyniad

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Dîm Behavioural Insights Team (TBI) ei helpu i gynyddu cyfran yr unigolion sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn dau Awdurdod Lleol yng Nghymru drwy ddefnyddio dulliau deall ymddygiad. Yn ogystal â chynyddu nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio ymysg y boblogaeth gyffredinol, roedd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb penodol mewn cynyddu nifer y bobl ifanc a nifer y bobl dduon a'r bobl o leiafrifoedd ethnig sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio.

Aeth TBI ati i weithio gyda Chyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor, a Chyngor Abertawe, i brofi dulliau gweithredu newydd er mwyn:

- Cynyddu cyfran y myfyrwyr yng Ngwynedd sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio; a
- Chynyddu cyfran yr unigolion yn Abertawe sy'n diweddaru eu manylion yn y gofrestr etholwyr.

Cwblhawyd y prosiect hwn rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2016.

### Y broses cofrestru pleidleiswyr yng Nghymru

Yn 2014 roedd tua 85% o bleidleiswyr cymwys yn y DU wedi'u cofrestru i bleidleisio.[6] Mae cyfran y bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio wedi bod yn lleihau'n raddol ers y 1980au,[7] ac roedd 2% yn llai o bobl wedi'u cofrestru i bleidleisio yng Nghymru yn 2015 nag yn y flwyddyn flaenorol.[8] Hefyd, mae cyfraddau cofrestru yn is ymysg pobl ifanc a'r rhai sy'n nodi eu bod yn bobl dduon, o gefndir cymysg neu'n perthyn i grŵp ethnigrwydd arall.[9]

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am lunio a chadw cofrestr etholwyr gyflawn a chywir ar gyfer eu hardal[10] ac mae'n rhaid iddynt gynnal canfasiad blynyddol yn yr hydref. Mae hyn yn cynnwys anfon Ffurflenni Holi Aelwydydd i bob aelwyd yn yr ardal, Ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru ar gyfer unrhyw un nad yw wedi'i gofrestru, ac anfon negeseuon atgoffa dilynol a mynd ati i ganfasio o ddrws i ddrws. Y tu allan i gyfnod y canfasio, gall awdurdodau lleol ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau eraill, gan gynnwys cynnal ymgyrchoedd ac anfon Llythyrau Hysbysu Aelwydydd.

Mae'r broses o gadw cofrestr gywir wedi mynd yn fwy heriol i awdurdodau lleol yn sgil cyflwyno'r system Cofrestru Etholiadol Unigol (IER). O dan system IER, mae'n rhaid i bob unigolyn gofrestru i bleidleisio yn unigol, yn hytrach na bod un person ar bob aelwyd yn gyfrifol am gofrestru pawb arall sy'n byw yn yr un cyfeiriad.[11] Gan fod angen i bobl wneud mwy o ymdrech i gael eu cynnwys yn y gofrestr, mae'n bosibl na fydd enwau rhai ohonynt yn cael eu hychwanegu. Yn ogystal, cafodd enwau pleidleiswyr eu dileu o'r gofrestr os nad oeddent wedi'u cofrestru yn unigol erbyn mis Rhagfyr 2015.[12] Mae'n debyg y dylai rhai o'r unigolion hyn fod wedi aros ar y gofrestr, ond bod eu henwau wedi'u dileu gan nad oeddent wedi cwblhau'r broses gofrestru unigol.

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae unigolion dros 16 oed yn gallu cofrestru i bleidleisio drwy'r post, ar-lein, a thros y ffôn mewn rhai ardaloedd. Mae'r broses gofrestru yn syml ac mae'n gofyn i'r unigolyn gyflwyno ei enw, ei ddyddiad geni, ei gyfeiriad a'i rif Yswiriant Gwladol.



© Behavioural Insights Ltd

## Tîm Behavioural Insights

Cwmni diben cymdeithasol unigryw yw Tîm Behavioural Insights (TBI). Sefydlwyd y cwmni yn swyddfa Prif Weinidog y DU, 10 Stryd Downing – y tro cyntaf i unrhyw lywodraeth yn y byd greu sefydliad a oedd yn ymrwymo i ddefnyddio gwyddorau ymddygiad. Mae'r Tîm wedi datblygu'n gwmni ymgynghori gyda'r gorau yn y byd, a'i genhadaeth yw helpu sefydliadau yn y DU a thramor i ddefnyddio dirnadaeth o ymddygiad i hyrwyddo nodau dibenion cymdeithasol.

Mae aelodau TBI yn cynnwys cyn weision sifil, seicolegwyr, economegwyr ymddygiad, marchnatwyr ac arbenigwyr polisi. Rydym yn manteisio ar wybodaeth sy'n seiliedig ar ein gwaith ymchwil ein hunain ym meysydd gwyddoniaeth ymddygiad ac ethnograffeg, yn ogystal â gwaith ymchwil gyda'n partneriaid, er mwyn deall yn well sut mae pobl yn ymddwyn mewn gwirionedd, yn hytrach na sut mae llunwyr polisi ac economegwyr yn rhagdybio y byddant yn ymddwyn. Oherwydd ein dealltwriaeth ar sail gwybodaeth o ymddygiad pobl, rydym yn gallu darparu canllawiau ymarferol a phwrpasol ar gynllunio deunyddiau polisi, gwasanaethau cyhoeddus a chyfathrebu er mwyn hyrwyddo neu geisio atal mathau penodol o ymddygiad.

Os oes modd, rydym yn troi'r awgrymiadau hyn yn ymyriadau ymarferol, gan fynd ati i brofi effaith yr ymyriadau drwy ddefnyddio hap-dreialon wedi'u rheoli. Rydym wedi defnyddio dealltwriaeth o ymddygiad yn llwyddiannus – a amlygir gan ganlyniadau wedi'u gwerthuso yn gadarnhaol – yng ngwaith y sector cyhoeddus a'r sector preifat mewn amrywiaeth eang o feysydd polisi, gan gynnwys trethiant.

## Strwythur yr Adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Adolygiad llenyddiaeth: adolygiad byr o lenyddiaeth ymddygiad yn ymwneud â chofrestru pleidleiswyr a'r ganran sy'n pleidleisio.
- Treial 1: disgrifiad o'r ymyriadau, cynllun y treial a chanlyniadau'r treial gyda Chyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor.
- Treial 2: disgrifiad o'r ymyriadau, cynllun y treial a chanlyniadau'r treial gyda Chyngor Abertawe.
- Casgliadau ac argymhellion ar gyfer gwaith yn y dyfodol.



© Behavioural Insights Ltd

## Adolygiad llenyddiaeth

### Cyflwyniad

Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn darparu crynodeb o'r dystiolaeth allweddol yn ymwneud ag annog pleidleiswyr i gofrestru a chynyddu'r ganran sy'n pleidleisio, yn ogystal ag amlinellu canfyddiadau perthnasol eraill o lenyddiaeth gwyddoniaeth ymddygiad y gellid eu defnyddio i annog pleidleiswyr i gofrestru.

Cwblhawyd nifer sylweddol o'r astudiaethau a amlinellir yn yr adran ganlynol yn yr Unol Daleithiau. Mae yna rai gwahaniaethau mawr rhwng systemau pleidleisio'r DU ac UDA, gan gynnwys y ffaith fod cofnodion pleidleisio, fel ble mae pobl yn byw ac a wnaethant bleidleisio, ar gael i'r cyhoedd yn UDA, ond nid yn y DU.

### Dulliau cyfathrebu

Yn rhyngwladol, mae dulliau cyfathrebu amrywiol wedi'u profi er mwyn ceisio annog mwy o bleidleiswyr i gofrestru a bwrw eu pleidlais, gan gynnwys post uniongyrchol, cyswllt wyneb yn wyneb, negeseuon e-bost a negeseuon testun.

Mae astudiaethau'n dangos bod post uniongyrchol wedi cael effaith fach ar y ganran sy'n pleidleisio,[13] tra bod llawer o astudiaethau wedi nodi bod rhyngweithio wyneb yn wyneb personol yn cael effaith sylweddol ar gofrestru pleidleiswyr ac ar y ganran sy'n pleidleisio.[14] Er enghraifft, edrychodd astudiaeth yn Ffrainc ar effeithiolrwydd ymweliadau canfasio â chartrefi. Nododd yr astudiaeth hon fod nifer yr unigolion sy'n cofrestru yn cynyddu pan fydd unigolion yn derbyn gwybodaeth am gofrestru neu'n cael cymorth ymarferol i gofrestru gartref – nodwyd mai'r cymorth ymarferol hwn sy'n fwyaf effeithiol. Mae hyn yn dangos bod diffyg gwybodaeth a baich gweinyddol yn gallu bod yn rhwystrau i gofrestru, a bod lleihau'r baich ar unigolion yn gallu bod yn effeithiol iawn.[15]

Hefyd, mae gwaith ymchwil wedi'i gwblhau i brofi effaith gohebiaeth e-bost a negeseuon testun ar bleidleisio (cofrestru a'r ganran sy'n pleidleisio). Yn ôl un astudiaeth, cafodd neges e-bost i bleidleiswyr cofrestredig gan y swyddog etholedig a oedd yn gyfrifol am weinyddu etholiadau effaith fach ar y ganran a bleidleisiodd, ond ni chafodd negeseuon e-bost gan sefydliad hyrwyddo pleidleisio ffug unrhyw effaith o gwbl.[16] Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ystyried pwy sy'n anfon y neges. Fodd bynnag, er gwaetha'r gost isel sy'n gysylltiedig ag anfon negeseuon e-bost, mae astudiaethau eraill wedi dangos nad yw gohebiaeth e-bost yn cael unrhyw effaith weithiau ar gofrestru nac ar y ganran sy'n pleidleisio.[17] [18] Dangosodd arbrawf arall fod anfon negeseuon e-bost atgoffa at unigolion a oedd wedi lawrlwytho ffurflenni cofrestru wedi arwain at gynnydd o 4% yn y cyfraddau cofrestru.[19] Hefyd, mae gwaith ymchwil wedi dangos bod negeseuon testun yn ddull effeithiol o gynyddu'r ganran sy'n pleidleisio.[20]



© Behavioural Insights Ltd

Mae dewis y dull cyfathrebu mwyaf llwyddiannus a chost-effeithiol yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu sut a phryd i dargedu unigolion. Er enghraifft, er bod dulliau wyneb yn wyneb yn effeithiol yn aml, maent yn ddrud ac felly'n anymarferol yn aml i sicrhau llwyddiant ar raddfa fawr.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn amlinellu dulliau o gynyddu effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu, drwy ddefnyddio dulliau gwyddoniaeth ymddygiad.

### Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol

Mae pobl yn gallu oedi cyn gweithredu, hynny yw maent yn tueddu i ohirio neu oedi cyn cyflawni gorchwyl neu wneud penderfyniad. Gall symleiddio proses neu ei chysylltu â phroses sydd eisoes ar waith helpu i oresgyn effeithiau oedi cyn gweithredu.

Mae costau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn gostau bach uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad.[21] Mae'r 'ffactorau anghyfleustra' hyn yn effeithio ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn mynd ati i weithredu.[22] Er enghraifft, mae gwaith ymchwil wedi dangos bod myfyrwyr a gafodd gymorth i wneud cais i fynd i'r brifysgol, gan gynnwys rhoi ffurflen gais wedi'i llenwi iddynt, 40 y cant yn fwy tebygol o wneud cais i fynd i'r brifysgol na'r rhai na chafodd y cymorth ychwanegol.[23] Yn ogystal, dangosodd arbrawf a gynhaliwyd gan TBI a CThEM fod darparu dolen a oedd yn mynd ag unigolion yn syth i'r ffurflen berthnasol yn hytrach nag i'r wefan gyffredinol (sy'n eu cyfeirio i'r ffurflen wedyn) yn cynyddu'r broses o gasglu dyledion yn sylweddol, er mai dim ond clicio llygoden unwaith oedd y 'gost' ychwanegol.[24]

Mae'r gofyniad mewn llawer o wledydd, gan gynnwys UDA a'r DU, i gofrestru cyn pleidleisio yn cynnig cyfle ychwanegol i bobl oedi cyn gweithredu, hyd yn oed os ydynt yn bwriadu pleidleisio. Yn UDA, mae'r Ddeddf Genedlaethol Cofrestru Pleidleiswyr (NVRA) a gyflwynwyd ym 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cerbydau modur Taleithiau gymell pobl i gofrestru i bleidleisio pan fyddant yn cwblhau'r broses i wneud cais am drwydded yrru (gan gynnwys unrhyw geisiadau adnewyddu).[25] Mae hyn yn cysylltu'r broses gofrestru â gweithred y mae unigolion wrthi'n ei chwblhau eisoes, gan leihau nifer y camau sydd eu hangen fel arfer i gwblhau'r broses h.y. canfod a mewngofnodi cyfeiriad y wefan gofrestru. Yn ôl astudiaeth ymchwil a gwblhawyd i ystyried effaith yr NVRA, roedd y Ddeddf wedi llwyddo i gynyddu nifer y cofrestriadau, ond mae'r canlyniadau o safbwynt canran y pleidleiswyr yn gymysg.[26] [27]

Ar sail y canfyddiadau hyn, dylid sicrhau bod y broses gofrestru mor hawdd â phosibl i'w chwblhau, ac os oes modd, gellid ei chysylltu â phrosesau sydd eisoes ar waith. Er enghraifft, drwy gofrestru unigolion sy'n gymwys i bleidleisio yn awtomatig pan fyddant yn troi'n 16 oed, drwy symleiddio'r ffurflen gofrestru, neu drwy gynnwys gwybodaeth yn y ffurflen yn barod (h.y. enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol). Mae'r broses o gynnwys gwybodaeth yn barod ar waith eisoes i ryw raddau, er enghraifft, mae'r Llythyr Hysbysu Aelwydydd, sy'n cymell pobl i ddiweddaru eu manylion yn y gofrestr etholwyr, yn cynnwys enw a dyddiad geni pobl (os yw unigolyn ar fin troi'n 18 oed).


© Behavioural Insights Ltd

**Amlygrwydd**

Drwy ddenu sylw pobl, a sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno mewn ffordd amlwg a thrawiadol, bydd pobl yn fwy tebygol o weithredu mewn ffordd benodol. Yn ôl arbrawf a gynhaliodd BIT, cafwyd cynnydd o 17.8 y cant (o gymharu ag 14.7% yn y grŵp rheoli) yn nifer y taliadau prydlon ar ôl cynnwys stamp 'Talwch Nawr' ar hysbysiad tor rheolau.[28] Hefyd, mae astudiaethau sy'n ceisio cynyddu cyfraddau ymateb i holiaduron wedi canfod bod defnyddio inc lliw, yn hytrach nag inc du neu inc glas, yn arwain at gynnydd o 40% yn y cyfraddau ymateb; mae'n ddiddorol nodi na chafodd papur lliw unrhyw effaith. [29]

Mae astudiaethau sy'n ymchwilio i ba elfennau o dudalennau gwe sy'n drawiadol yn weledol wedi canfod bod symudiadau'r llygad yn dilyn siâp F fel arfer.[30] Felly, mae llygaid pobl yn tueddu i edrych ar hyd brig y dudalen, yna ar hyd yr ochr chwith, gan ddarllen rhai llinellau o destun ar draws y dudalen, cyn dychwelyd i'r ochr chwith. Mae cyfyngu ar gyfanswm y testun ar dudalen a chynnwys elfennau gweledol yn gallu helpu i dynnu sylw i ffwrdd o'r siâp F, er enghraifft, mae wedi dod i'r amlwg bod elfennau darluniadol o bob maint yn ddull effeithiol o ddenu sylw.[31]

Hefyd, mae gwybodaeth sy'n bersonol i ni yn llwyddo i ddenu ein sylw. Yn ôl arbrawf a gynhaliodd TIB a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi, roedd negeseuon testun a oedd yn annog pobl i ad-dalu dirwyon wedi arwain at gynnydd o 41 y cant yn y cyfraddau talu os oeddent yn cynnwys enw'r unigolyn o gymharu â negeseuon testun cyffredinol.[32] Mewn arbrawf ar wahân gan TIB a CThEM, dangoswyd bod nodyn wedi'i ysgrifennu â llaw ar amlen wen yn datgan "[Enw cyntaf] – mae angen i chi ddarllen hwn" wedi arwain at gynnydd o 4.2 y cant yng nghyfraddau'r ymateb i lythyr am dalu treth yn hwyr (o'i gymharu â chyfraddau ymateb y rhai a dderbyniodd amlen frown heb unrhyw neges bersonol).[33] Felly, gall dulliau fel hyn oresgyn her allweddol gohebiaeth bost o sicrhau bod pobl yn agor y llythyr yn y lle cyntaf.

Yn y cyd-destun hwn, dylid defnyddio dulliau o ddenu sylw unigolion mewn gohebiaeth sy'n eu hannog i gofrestru a sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn amlwg (er enghraifft, drwy ddefnyddio delweddau, negeseuon personol, safle amlwg a newid amlenni).

**Llunio negeseuon/osgoi colli**

Mae pobl yn ymateb yn wahanol i negeseuon gan ddibynnu ar a yw canlyniadau'n cael eu llunio fel colli neu ennill. Mae wedi dod i'r amlwg bod colli tua dwywaith yn gryfach yn seicolegol na'r pleser o ennill, felly mae'n llawer gwell gan bobl osgoi colli na sicrhau eu bod yn ennill; yr enw am y cydsyniad hwn yw osgoi colli.[34] Er enghraifft, roedd cleifion a gafodd wybod bod 90% o bobl yn dal yn fyw ar ôl pum mlynedd yn fwy tebygol o gael llawdriniaeth na'r rhai a gafodd wybod bod 10% o bobl wedi marw ar ôl pum mlynedd.[35] Amlygir y sensitifrwydd hwn i lunio negeseuon gan dreial treth TBI hefyd, a ddaeth i'r casgliad fod neges yn seiliedig ar golli ym maes gwasanaethau cyhoeddus wedi cynyddu ad-daliadau treth ymysg y rhai a oedd â dyledion mawr.[36]


© Behavioural Insights Ltd

Dylid ystyried sut i fynd ati i lunio negeseuon er mwyn amlygu'r colledion posibl o beidio â phleidleisio. Er enghraifft, 'Gall peidio â llenwi'r ffurflen hon gostio £80 i chi' neu 'Bob blwyddyn mae'n costio £X i Gyngor Abertawe gysylltu â phobl nad ydynt wedi dychwelyd eu ffurflenni cofrestru. Gallem wario'r arian hwn ar wasanaethau lleol fel gwella'r ffyrdd a'r parciau.'

### Negesyddion

Mae'r sawl sy'n cyfleu neges yn dylanwadu ar werth darn o wybodaeth, heb i ni sylweddoli hynny yn aml.[37] Mae dylanwad y negesydd yn amrywio gan ddibynnu ar y neges sy'n cael ei chyflwyno a'r union ymddygiad sy'n cael ei annog. Mae unigolion mewn awdurdod a gweithwyr proffesiynol arbenigol yn gallu lledaenu rhai mathau o wybodaeth yn effeithiol, gan eu bod yn ysgogi parch ac yn ennyn hygrededd ac ymddiriedaeth. Amlygwyd hyn gan waith ymchwil a ddangosodd fod addysgwyr iechyd yn gallu annog pobl i archwilio eu cyrff am symptomau canser yn fwy effeithiol na chynorthwywyr ymchwil a oedd yn ceisio annog yr un ymddygiad.[38]

Yn ogystal â gwrando ar unigolion mewn awdurdod, gall pobl fod yn fwy tebygol o wrando ar unigolion sy'n debyg iddyn nhw eu hunain o ran demograffeg neu ymddygiad. Er enghraifft, roedd un astudiaeth yn ystyried a oedd ansawdd dadl ysgrifenedig a'r negesydd (tebyg neu'n annhebyg) yn effeithio ar farn pobl. Gwelwyd bod negeseuon gan unigolion annhebyg wedi'u gwrthod, waeth beth oedd eu hansawdd, tra bod ansawdd y ddadl wedi cael effaith ar farn pobl os oedd y negesydd yn debyg iddynt.[39] Mae hyn yn dangos bod barn gychwynnol pobl yn gryfach na sut maent yn dehongli gwybodaeth.

Dylid profi effaith negesyddion gwahanol wrth annog pobl i gofrestru neu bleidleisio – er enghraifft, er mwyn canfod a yw pobl yn fwy tebygol o ymateb i wybodaeth gan unigolion mewn awdurdod, arbenigwyr neu bobl 'sy'n debyg iddyn nhw'.

### Normau cymdeithasol

Yn ogystal â natur y sawl sy'n cyfleu'r neges, mae pobl yn cael eu dylanwadu gan weithredoedd, gwerthoedd a disgwyliadau pobl sydd o'u cwmpas, a'r enw am y cysyniad hwn yw normau cymdeithasol.[40] Yn ôl astudiaeth ddiweddar, cafwyd gostyngiad o 3.3% mewn presgripsiynau gwrthfiotigau ar ôl anfon llythyr yn datgan 'mae'r rhan fwyaf o bractisau (80%) [yn yr ardal leol] yn rhagnodi llai o wrthfiotigau'r pen na'ch practis chi' at feddygon teulu a oedd â chyfradd rhagnodi gwrthfiotigau uchel, o gymharu â'r rhai na wnaethant dderbyn y llythyr.[41]

Mae wedi dod i'r amlwg bod normau cymdeithasol a phwysau cymdeithasol yn ddylanwad cryf ar ymddygiad pleidleisio hefyd. Er enghraifft, mae pobl sydd â chyfraddau uwch o ffrindiau a chydweithwyr sy'n pleidleisio yn fwy tebygol o bleidleisio eu hunain; mae modd egluro hyn ar sail normau cymdeithasol pennaf rhwydwaith yr unigolyn, neu ffactorau eraill fel safbwyntiau gwleidyddol tebyg.[42] [43]

Hefyd, roedd y tebygolrwydd o bleidleisio yn cynyddu pan oedd negeseuon yn pwysleisio bod disgwyl i ganran uchel o bobl bleidleisio, yn hytrach na chanran isel.[44] Mae hyn yn ddiddorol iawn, oherwydd os yw'r penderfyniad i bleidleisio yn seiliedig ar *effaith* pleidlais unigolyn yn unig, dylai pobl fod yn fwy


© Behavioural Insights Ltd

tebygol o bleidleisio os disgwylir i ganran isel o bobl bleidleisio (gan fod effaith pob pleidlais yn fwy pan fydd canran y rhai sy'n pleidleisio yn isel). Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod canran uchel ddisgwyliedig o bleidleiswyr yn cael mwy o effaith. Mae'r canfyddiad hwn yn gysylltiedig ag awydd pobl i gydymffurfio â normau eu grŵp cymdeithasol, a chredir ei bod yn effeithio'n benodol ar ddinasyddion nad ydynt yn pleidleisio'n rheolaidd.[45]

Nod astudiaeth yn UDA oedd ystyried a ellid cynyddu canran y bobl sy'n pleidleisio drwy greu teimlad o bwysau cymdeithasol.[46] Anfonwyd un o bedwar llythyr gwahanol at unigolion, gan gynnwys:

1. Neges am ddyletswydd ddinesig.
2. Neges yn dweud y byddai eu pleidlais yn cael ei hastudio ar sail cofnodion cyhoeddus.
3. Neges yn cynnwys gwybodaeth am aelodau'r aelwyd a oedd wedi pleidleisio yn y gorffennol. Hefyd, hysbyswyd unigolion y byddent yn derbyn siart ar ôl yr etholiadau yn dangos y wybodaeth ddiweddaraf am aelodau'r aelwyd a oedd wedi pleidleisio.
4. Neges yn datgelu ymddygiad pleidleisio blaenorol yr aelwyd, ac ymddygiad pleidleisio blaenorol cymdogion. Hefyd, hysbyswyd unigolion y byddai siart yn cael ei anfon ar ôl yr etholiadau i'w haelwyd nhw ac aelwydydd eu cymdogion, yn dangos y wybodaeth ddiweddaraf am eu hymddygiad pleidleisio nhw ac ymddygiad pleidleisio eu cymdogion.

Roedd y rhai a dderbyniodd lythyrau rhif tri a phedwar a oedd yn addo rhoi gwybod am ymddygiad pleidleisio aelwydydd, neu aelwydydd a'u cymdogion, yn llawer mwy tebygol o fwrw pleidlais (4.9 y cant ar gyfer llythyr tri ac 8.1 y cant ar gyfer llythyr 4) na'r rhai na wnaethant dderbyn llythyr o gwbl.

Felly, gall cynyddu pwysau cymdeithasol, ac amlygu normau cymdeithasol rhwydwaith gynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru i bleidleisio, e.e. drwy ddatgan: "Mae 90% o unigolion cymwys yn Abertawe wedi'u cofrestru i bleidleisio. Ar hyn o bryd rydych chi'n perthyn i'r ganran fechan iawn o bobl nad ydynt wedi cofrestru".

### Hunanddelwedd

Mae pobl yn awyddus i fod â hunanddelwedd gadarnhaol, ac maent yn awyddus iawn i'w gweld eu hunain yn bobl foesol sy'n haeddu cymeradwyaeth gymdeithasol.[47] [48] Gall pleidleisio gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n ddymunol yn gymdeithasol ac yn ddyletswydd ddinesig bwysig[49] - mae'r broses o hyrwyddo hunanddelwedd a hunaniaeth gadarnhaol sy'n cyfateb i werthoedd unigolion wedi'i defnyddio i gynyddu canran y bobl sy'n pleidleisio.[50] Yn ôl astudiaeth yn UDA, roedd cysylltu'r weithred o bleidleisio â phriodweddau hanfodol a hunanddelwedd unigolyn drwy ofyn 'Pa mor bwysig yw hi i chi y byddwch yn bleidleisiwr yn yr etholiad sydd ar y gweill?' yn fwy effeithiol na gofyn 'Pa mor bwysig yw hi i chi y byddwch yn pleidleisio yn yr etholiad sydd ar y gweill?'[51]



© Behavioural Insights Ltd

Dylid defnyddio negeseuon sy'n cysylltu hunanddelwedd gadarnhaol unigolyn, er enghraifft drwy ddefnyddio iaith sy'n cynyddu ei hunaniaeth fel pleidleisiwr, er mwyn helpu i annog mwy o bobl i bleidleisio.

### Bwriadau gweithredu

Mae bwriadau gweithredu yn gynlluniau 'os-yna' sy'n amlinellu beth fydd pobl yn ei wneud mewn sefyllfa benodol. Mae'r dull hwn yn annog unigolion i nodi pryd, ble a sut y byddant yn cyflawni nod penodol. Er enghraifft, os yw rhywun yn ceisio rhoi'r gorau i smygu, gallai ddatblygu'r cynllun 'os-yna' canlynol: 'Mae gen i awydd smysgu pan dwi allan gyda fy ffrindiau, felly bydda i'n cnoi gwm yn lle smygu'.[52] Mae hyn yn helpu pobl i ragweld y byddant yn cyflawni'r weithred ac mae'n strategaeth gynllunio i'w helpu i beidio ag oedi cyn gweithredu.[53] Mae bwriadau gweithredu wedi bod yn effeithiol mewn sawl maes, gan gynnwys helpu pobl i fynychu apwyntiadau brechu a sgrinio, hybu bwyta'n iach ac annog pobl i bleidleisio.[54] [55]

Yn ystod etholiadau Arlywyddol UDA yn 2008, dangosodd gwaith ymchwil fod gofyn i unigolion lunio cynllun pleidleisio (faint o'r gloch y byddent yn pleidleisio, o le y byddent yn dod, a beth y byddent yn ei wneud ymlaen llaw) wedi arwain at gynnydd o 4.1 y cant yn y ganran a bleidleisiodd.[56] Yn yr astudiaeth hon, ni chafodd galwad ffôn safonol i annog pobl i bleidleisio, neu ofyn i bobl a oeddent yn bwriadu pleidleisio, unrhyw effaith ar y rhai a bleidleisiodd. Mae'n ddiddorol nodi bod llunio cynllun pleidleisio wedi cael effaith fawr ar aelwydydd lle'r oedd un pleidleisiwr cymwys yn byw, ond nad oedd unrhyw effaith ar aelwydydd lle'r oedd pleidleiswyr cymwys lluosog yn byw. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod pobl sy'n byw gyda phleidleiswyr cymwys eraill yn debygol o drafod cynlluniau ymarferol i bleidleisio ymlaen llaw, fel gofal plant a threfniadau teithio, tra bod mynd ati i ymarfer trefn bleidleisio wedi helpu'r rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain i lunio cynllun.

Gellid ymgorffori'r strategaeth gynllunio hon yn y broses gofrestru, er enghraifft, annog pobl i feddwl am sut a phryd y byddant yn cofrestru *ac* yn mynd allan i bleidleisio, a nodi unrhyw rwystrau sy'n gysylltiedig â gweithredu.

### Cymhellion

Mae cymhellion (e.e. cymhellion ariannol neu dreth) yn cael eu defnyddio'n aml ym maes polisi cyhoeddus i hybu ymddygiad penodol; fodd bynnag, mae'r broses o'u cyflwyno a'r math o gymhelliant sydd ar gael yn hollbwysig i'w llwyddiant. Yn aml, mae pobl yn rhoi gormod o bwyslais ar debygolrwydd bach, neu ddigwyddiadau annhebygol, sy'n golygu bod loterïau yn gallu bod yn ddull effeithiol iawn o gyflwyno cymhellion ariannol.[57]

Penderfynodd TBI i ddefnyddio loteri i annog aelwydydd mewn Bwrdeistref yn Llundain i gofrestru i bleidleisio.[58] Hysbyswyd aelwydydd y byddent yn cael eu cynnwys mewn loteri pe baent yn cofrestru erbyn dyddiad penodol. Cafodd rhai aelwydydd eu cynnwys mewn loteri i ennill £5,000, cafodd eraill eu cynnwys mewn loteri i ennill £1,000, a derbyniodd y gweddill y llythyr safonol yn gofyn iddynt bleidleisio, heb gynnig loteri. Dangosodd y canlyniadau fod yr aelwydydd a gafodd y cyfle i gael eu



© Behavioural Insights Ltd

cynnwys mewn loteri yn llawer mwy tebygol o gofrestru na'r rhai a dderbyniodd y llythyr safonol, ond nad oedd maint y wobr (£5,000 neu £1,000) yn gwneud gwahaniaeth. Wrth archwilio'r canlyniadau yn fanylach, nodwyd bod aelwydydd mewn ardaloedd tlotach yn fwy tebygol o gofrestru i bleidleisio pe baent yn cael cynnig y loteri, ond nad oedd unrhyw effaith mewn ardaloedd mwy cyfoethog. Pan ddaeth y treial i ben, cafodd yr holl aelwydydd nad oeddent wedi cofrestru ymweliad wyneb yn wyneb i'w hannog i gofrestru i bleidleisio. Ar ôl yr ymweliadau hyn, ni nodwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng aelwydydd a oedd wedi cael cyfle i gael eu cynnwys mewn loteri a'r rhai nad oeddent wedi cael cyfle. Mae hyn yn golygu bod y cymhelliant a gynigiwyd yn ystod y treial wedi annog pobl a fyddai wedi ymateb i'r canfasiad wyneb yn wyneb i gofrestru'n gynt – gan leihau'r angen am ymweliadau wyneb yn wyneb drud.

Os yw cymhellion i annog pobl i gofrestru ar gael, dylid cynnal gwerthusiadau cyn eu cyflwyno'n llawn er mwyn profi maint a natur y wobr sydd ei hangen i hyrwyddo'r ymddygiad dymunol a chost-effeithiolrwydd y dull gweithredu. Mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio cymhellion allanol, gan fod y dystiolaeth yn awgrymu bod darparu cymhellion ariannol yn gallu disodli cymhellion eraill i ymddwyn mewn ffordd benodol.[59] Er enghraifft, gall talu pobl am ymddygiad anhunanol, fel rhoi gwaed, gael effaith niweidiol.[60]

### Casgliad

Mae posibiliadau eang i gynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru i bleidleisio drwy ddefnyddio'r dulliau gwyddoniaeth ymddygiad a amlinellir yn yr adolygiad llenyddiaeth hwn. Yn yr adrannau nesaf rydym yn cyflwyno manylion dau dreial a gynhaliodd TBI i annog pleidleiswyr i gofrestru drwy ddefnyddio dealltwriaeth o ymddygiad.



© Behavioural Insights Ltd

## Treial 1 – Treial e-bost gyda Chyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor

### Y negeseuon e-bost

Aeth y treial hwn ati i newid cynnwys y neges e-bost sy'n cael ei hanfon at fyfyrwyr Prifysgol Bangor, ar ran Cyngor Gwynedd, i'w hannog i gofrestru i bleidleisio.

Roed y negeseuon e-bost yn cael eu hanfon dair gwaith y flwyddyn, yn yr hydref, y gaeaf a'r gwanwyn, ac nid oedd effeithiolrwydd y negeseuon wedi'i werthuso o'r blaen. Mae Prifysgol Bangor yn mynd ati i annog myfyrwyr i gofrestru mewn ffyrdd eraill hefyd, gan gynnwys cefnogi diwrnod cofrestru pleidleiswyr cenedlaethol (ym mis Chwefror), drwy ddosbarthu gwybodaeth a helpu myfyrwyr i gofrestru.

Cafodd y neges e-bost hon ei dewis am nifer o resymau.

1. Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru i bleidleisio, gan fod cyfraddau cofrestru yn is ymysg pobl ifanc. Roedd y neges e-bost yn gyfle i edrych ar ohebiaeth sy'n cael ei hanfon gan brifysgol at bobl ifanc yn benodol, yn hytrach na gohebiaeth awdurdod lleol sy'n cael ei hanfon at bob aelwyd mewn ardal.

2. Roedd y neges e-bost yn ohebiaeth a oedd eisoes yn bodoli ac a anfonwyd yn ystod cyfnod y prosiect – ar ôl prif gyfnod y canfasiad. Roedd hyn yn gyfle i ni wella dull gweithredu a oedd eisoes yn bodoli yn hytrach na chreu dull cyfathrebu newydd.

Cafodd dau fersiwn newydd o'r neges e-bost eu profi yn erbyn y neges e-bost safonol a anfonwyd ynghynt gan Brifysgol Bangor. Roedd holl destun y negeseuon e-bost yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).

Mae'r negeseuon e-bost yn cael eu disgrifio yn y tabl isod (mae copïau llawn o'r negeseuon e-bost ar gael yn Atodiad 1).

| Negeseuon e-bost | Manylion yr ymyriad |
|---|---|
| **E-bost safonol (rheoli)**[61] | Neges e-bost safonol a anfonwyd gan Brifysgol Bangor, ar ran Cyngor Gwynedd, i annog myfyrwyr i gofrestru i bleidleisio.<br><br>Roedd y neges e-bost yn atgoffa myfyrwyr bod etholiad ar y gweill, ac roedd yn cynnwys dolen i'r wefan sy'n cofrestru pleidleiswyr. Roedd y testun yn ddwyieithog - yn y Gymraeg yn gyntaf ac yna'r Saesneg. |
| **E-bost â graffig (grŵp triniaeth 1)** | Roedd y neges e-bost hon yn cynnwys graffig amlwg a thestun byr yn ymwneud ag ymddygiad: |



© Behavioural Insights Ltd

| | |
|---|---|
| | *'Become a voter today by clicking here. Cofrestrwch i fod yn bleidleisiwr heddiw drwy glicio yma'*<br><br>Drwy glicio ar y graffig roedd modd cysylltu â'r wefan gofrestru: https://www.gov.uk/register-to-vote<br><br>Roedd yr ymyriad hwn yn manteisio ar y llenyddiaeth ar wyddoniaeth ymddygiad mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, drwy sicrhau bod y broses o gofrestru i bleidleisio yn hawdd (drwy leihau faint o destun yr oedd angen i unigolion ei ddarllen a chynnwys dolen uniongyrchol o'r graffig i'r wefan gofrestru). Roedd symleiddio'r broses yn bwysig iawn o ystyried y gofyniad i ddarparu gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n gallu ei gwneud yn anoddach nodi negeseuon allweddol. Yn ail, drwy sicrhau bod gwybodaeth allweddol mewn lle amlwg (drwy ddefnyddio graffig deniadol) ac yn drydydd, drwy gynyddu hunaniaeth unigolyn fel pleidleisiwr (trwy ddefnyddio'r term 'cofrestrwch i fod yn bleidleisiwr').<br><br>Roedd y pwynt olaf hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r llenyddiaeth academaidd a ddangosodd fod cysylltu'r weithred o bleidleisio â hunan-ddelwedd a hunaniaeth unigolyn drwy ofyn 'Pa mor bwysig yw hi i chi y byddwch yn bleidleisiwr yn yr etholiad sydd ar y gweill?' yn fwy effeithiol na gofyn 'Pa mor bwysig yw hi i chi y byddwch yn pleidleisio yn yr etholiad sydd ar y gweill?'[62] |
| **E-bost â graffig a ffigwr democrataidd (grŵp triniaeth 2)** | Roedd y neges e-bost hon yn debyg iawn i'r neges ar gyfer grŵp triniaeth 1 gan ei bod yn cynnwys testun byr yn ymwneud ag ymddygiad. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys llun o'r ffigwr democrataidd, Nelson Mandela hefyd.<br><br>Roedd yr ymyriad hwn yn manteisio ar yr un egwyddorion gwyddoniaeth ymddygiad ag a ddefnyddiwyd ar gyfer grŵp triniaeth 1, yn ogystal â defnyddio ffigwr democrataidd sy'n cael ei barchu i annog pobl i feddwl am natur ddemocrataidd bwrw pleidlais. |

**Gweithredu**


Cynhaliwyd y treial ym mis Chwefror a mis Mawrth 2016. Ym mis Chwefror, anfonwyd neges e-bost untro at tua 4,900 o fyfyrwyr Prifysgol Bangor a oedd yn byw yng Ngwynedd. Dewiswyd myfyrwyr ar hap i dderbyn un o'r negeseuon e-bost uchod. Er mwyn mesur y canlyniadau, nodwyd cyfran y myfyrwyr a gofrestrodd i bleidleisio a chyfran y myfyrwyr a ddefnyddiodd y ddolen i fynd i'r wefan gofrestru rhwng 22 Chwefror 2016 (pan anfonwyd y negeseuon e-bost) a 10 Mawrth 2016 (pan gasglwyd y data). Prifysgol Bangor oedd yn gyfrifol am elfen hap y broses o anfon negeseuon e-bost.


© Behavioural Insights Ltd

**Canlyniadau**

Mae Ffigur 1 yn dangos cyfran y myfyrwyr a gofrestrodd i bleidleisio yn ystod cyfnod y treial, ar sail grŵp triniaeth. Cafwyd cyfraddau cofrestru isel o ganlyniad i bob un o'r tair neges e-bost, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod mwy o fyfyrwyr wedi cofrestru i bleidleisio ar ôl derbyn negeseuon e-bost yn seiliedig ar ymddygiad o gymharu â'r rhai a dderbyniodd y neges e-bost safonol.

**Ffigur 1: cyfran y myfyrwyr yn cofrestru i bleidleisio (rhwng mis Chwefror a mis Mawrth), yn ôl natur y driniaeth**




Percentage – Canran

Control – Rheoli   Graphic Email – E-bost â Graffig   Graphic + Democratic Figure – Graffig a Ffigwr Democrataidd


Total N=4,911 – Cyfanswm=4,911

Nid oedd unrhyw dystiolaeth chwaith bod y llythyrau newydd wedi cynyddu cyfran yr unigolion sy'n defnyddio'r ddolen i fynd i'r wefan cofrestru i bleidleisio.



© Behavioural Insights Ltd

**Ffigur 2: cyfran yr unigolion sy'n defnyddio'r ddolen i fynd i'r wefan gofrestru (mis Chwefror a mis Mawrth), yn ôl natur y driniaeth**




Percentage – Canran

Control – Rheoli   Graphic Email – E-bost â Graffig   Graphic + Democratic Figure – Graffig a Ffigwr Democrataidd

Total N=4,911 – Cyfanswm=4,911

Mae nifer o oblygiadau posibl i'r canfyddiadau hyn:

- Roedd yr ymyriadau yn dibynnu ar y myfyrwyr yn sylwi bod cysylltiad rhwng y cam gweithredu dymunol (cofrestru) a'r canlyniad gwerthfawr (yn yr achos hwn, bod yn 'bleidleisiwr'). Mae'n bosibl na wnaethant ystyried y cysylltiad rhwng cofrestru a phleidleisio (a'u bod yn ystyried cofrestru yn orchwyl gweinyddol), neu eu bod o'r farn nad yw bod yn bleidleisiwr yn ganlyniad digon gwerthfawr i oresgyn anghyfleustra cofrestru.

- Roedd cyfradd y rhai a dderbyniodd neges e-bost â graffig (grŵp triniaeth 1) a ddefnyddiodd y ddolen yn uwch ar gyfartaledd na'r grŵp rheoli (ond nid oedd y gwahaniaeth yn sylweddol). Fodd bynnag, roedd cyfradd y rhai a gofrestrodd yng ngrŵp triniaeth 1 yn is na'r grŵp rheoli


© Behavioural Insights Ltd

(ond nid yn sylweddol is). Mae hyn yn awgrymu nad oes gan bobl sy'n mynd i'r wefan gymhelliant mewnol i fynd ati i gofrestru, neu fod rhai ohonynt yn gweld y broses yn anodd neu'n llafur dwys. Yn y cyswllt hwn, gall fod yn ddefnyddiol ystyried a oes unrhyw gyfleoedd ar gael i leihau'r camau a'r ymdrech sydd eu hangen i gwblhau'r broses gofrestru er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r ddolen ac yna'n mynd ymlaen i gwblhau'r broses gofrestru.

- Mae cyfradd ymateb isel y grŵp rheoli yn awgrymu y gall fod yn syniad da i Brifysgol Bangor a Chyngor Gwynedd ymchwilio i ddulliau cyfathrebu effeithiol eraill i annog myfyrwyr i gofrestru.

Yn ystod prif gyfnod y canfasio yn yr hydref, roedd Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor wedi anfon gohebiaeth (gan gynnwys neges e-bost a llythyrau) i annog myfyrwyr i gofrestru i bleidleisio. Felly, mae'n bosibl bod cyfran fawr o fyfyrwyr eisoes wedi'u cofrestru. Yn anffodus, nid oedd gennym ddata ar gyfran y myfyrwyr a oedd wedi'u cofrestru i bleidleisio ar ddechrau'r treial i'n helpu i nodi a oedd hwn yn ffactor perthnasol o bosibl.

**Argymhelliad**

Rydym yn argymell y dylid profi effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu eraill (e.e. llythyrau, negeseuon testun, neu gyswllt personol drwy staff academaidd neu fyfyrwyr gwirfoddol) wrth annog myfyrwyr i gofrestru i bleidleisio. Hefyd, rydym yn argymell y dylai treialon yn y dyfodol ganolbwyntio ar wella'r ohebiaeth yn ystod y canfasio blynyddol.

Hefyd, mae TBI wedi nodi bod cynnwys pobl mewn loteri os ydynt yn cofrestru i bleidleisio erbyn dyddiad penodol yn ffordd effeithiol o annog pobl i gofrestru mewn ffordd amserol. Felly, gallai unrhyw waith yn y dyfodol i annog pobl i gofrestru ystyried defnyddio cymhellion effeithiol, os ydynt ar gael. Gall defnyddio cymhellion yn y modd hwn fod yn effeithiol gyda myfyrwyr yn benodol os nad ydynt yn sylweddoli'r pwysigrwydd o fod yn bleidleisiwr. Hefyd, gallai fod yn ddull cost-effeithiol o ystyried pa mor ddrud yw rhai dulliau sy'n cael eu defnyddio gan gynghorau, fel ymweliadau wyneb yn wyneb.



© Behavioural Insights Ltd

## Treial 2 – Llythyrau Cyngor Abertawe

### Y llythyrau

Roedd y treial hwn yn archwilio effeithiolrwydd newid cynnwys y Llythyr Hysbysu Aelwydydd. Mae'r llythyr hwn wedi'i anfon gan y Cyngor o'r blaen ac mae'n cael ei anfon i holl aelwydydd Abertawe ar ôl prif gyfnod y canfasiad.

Mae'r llythyr yn debyg i'r Ffurflen Holi Aelwydydd sy'n cael ei hanfon yn ystod y canfasio: mae'n rhestru enwau'r unigolion ar aelwyd sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio ac yn gofyn i unigolion ddiweddaru eu manylion os oes angen. Mae diweddariadau yn cynnwys dileu enwau (tynnu rhywun oddi ar y gofrestr), ychwanegiadau (ychwanegu rhywun at y gofrestr) neu addasiadau (newid manylion ar y gofrestr). Mae'r holl newidiadau hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y gofrestr yn gywir. Gwahaniaeth allweddol rhwng y Llythyr Hysbysu Aelwydydd a'r Ffurflen Holi Aelwydydd yw'r ffaith ei bod yn ofynnol i aelwydydd ymateb i'r ffurflen p'un ai a oes newidiadau ar yr aelwyd ai peidio, ond os yw'r holl enwau a manylion yn y llythyr yn gywir, nid oes angen i'r aelwyd ymateb iddo.

Cafodd y Llythyr Hysbysu Aelwydydd ei ddewis am nifer o resymau:

1. Dechreuodd y treial ym mis Mawrth ar ôl i brif gyfnod y canfasio ddod i ben. Felly, roedd cyfleoedd cyfyngedig lle'r oedd gohebiaeth yn parhau i gael ei hanfon at unigolion er mwyn eu hannog i gofrestru i bleidleisio.

2. Roedd y Llythyr Hysbysu Aelwydydd yn gyfle da gan ei fod yn cael ei anfon i holl aelwydydd Abertawe.


3. Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynyddu nifer y bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig sy'n cofrestru i bleidleisio oherwydd cyfraddau cofrestru cymharol isel. Roeddem yn awyddus i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio data'r cyfrifiad i gwblhau dadansoddiad dangosol o effaith y llythyrau ar bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig.

Dewiswyd aelwydydd ar hap i dderbyn un o bedwar llythyr. Y llythyr cyntaf oedd y Llythyr Hysbysu Aelwydydd safonol sy'n cael ei anfon gan Gyngor Abertawe, ac roedd y tri llythyr arall yn llythyrau newydd. Anfonwyd copi dwyieithog o'r llythyr i'r holl aelwydydd. Mae'r llythyrau'n cael eu disgrifio yn y tabl isod (mae copi llawn o'r llythyrau i'w gweld yn Atodiad 2).

| Llythyrau | Manylion yr ymyriad |
|---|---|
| **Llythyr safonol (rheoli)** | Y Llythyr Hysbysu Aelwydydd safonol sy'n annog unigolion i ddiweddaru eu manylion cofrestru. |



© Behavioural Insights Ltd

| | |
|---|---|
| **Llythyr norm cymdeithasol (grŵp triniaeth 1)** | Cafodd y llythyr hwn ei symleiddio i gynnwys gwybodaeth hanfodol yn unig. Roedd y llythyr yn cynnwys y normau cymdeithasol canlynol hefyd:<br><br>*Ar hyn o bryd mae dros 90% o unigolion cymwys yn Abertawe wedi'u cofrestru i fwrw pleidlais.*<br><br>Roedd hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r llenyddiaeth academaidd sydd wedi dangos bod normau cymdeithasol a phwysau cymdeithasol yn gallu bod yn ddylanwad cryf ar ymddygiad pleidleisio.[63] [64] |
| **Llythyr diagram (grŵp triniaeth 2)** | Roedd y llythyr hwn yn debyg iawn i lythyr grŵp triniaeth 1 ond roedd yn cynnwys diagram llif (gweler isod) sy'n dangos y camau sydd angen i unigolion eu cymryd i wirio, ac efallai diweddaru, eu manylion ar y gofrestr etholwyr.<br><br><br><br><br>Roedd hyn yn seiliedig ar egwyddor symleiddio sydd wedi dangos bod creu proses hawdd a rhoi camau syml ar waith yn gallu gwella'r posibilrwydd y bydd unigolyn yn mynd ati i weithredu.[65] |
| **Llythyr diagram ac amlen syml (grŵp triniaeth 3)** | Roedd y llythyr hwn yn debyg iawn i lythyr grŵp triniaeth 2 gan ei fod yn syml, yn cynnwys llinell normau cymdeithasol a diagram llif.<br><br>Hefyd, roedd yr amlen wedi'i haddasu drwy ddileu cyfeiriad a logo'r swyddog cofrestru etholwyr ar y cefn. Roedd yr amlen yn cynnwys llinell a oedd yn apelio at hunan-ddelwedd a hunaniaeth bositif pobl fel pleidleiswyr:<br><br>*Pa mor bwysig yw hi i chi y byddwch yn bleidleisiwr yn yr etholiad sydd ar y gweill?*<br><br>Mae hyn yn manteisio ar egwyddorion symleiddio ac ar ganfyddiadau'r llenyddiaeth academaidd sy'n dangos bod cysylltu'r weithred o bleidleisio â |


© Behavioural Insights Ltd

| | |
|---|---|
| | hunan-ddelwedd unigolyn drwy ofyn 'Pa mor bwysig yw hi i chi y byddwch yn bleidleisiwr yn yr etholiad sydd ar y gweill?' yn fwy effeithiol na gofyn 'Pa mor bwysig yw hi i chi y byddwch yn pleidleisio yn yr etholiad sydd ar y gweill?'[66] |

**Gweithredu**

Cynhaliwyd y treial ym misoedd Mawrth ac Ebrill 2016 ac anfonwyd y llythyrau i tua 110,000 o aelwydydd yn Abertawe. Dewiswyd aelwydydd ar hap i dderbyn un o'r pedwar llythyr.

Er mwyn mesur y canlyniadau, nodwyd cyfran yr aelwydydd a wnaeth o leiaf un newid (dileu, ychwanegu a diwygio) i'r gofrestr etholwyr a chyfran yr aelwydydd a wnaeth newid (ychwanegu, dileu neu ddiwygio) yn annibynnol ar ei gilydd. Anfonwyd y llythyrau ar 4 Mawrth 2016 a mesurwyd y canlyniadau ar 30 Ebrill 2016. Cyngor Abertawe oedd yn gyfrifol am elfen hap y broses o anfon llythyrau.


**Canlyniadau**

Mae Ffigur 3 yn dangos cyfran yr aelwydydd a wnaeth o leiaf un newid i'r gofrestr (h.y. ychwanegu, dileu a diwygio). Dim ond canran fechan (tua 7 y cant) o aelwydydd a aeth ati i wneud newid ar ôl derbyn unrhyw un o'r pedwar llythyr. Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y llythyrau newydd seiliedig ar ymddygiad a'r llythyr safonol (rheoli). Felly, nid oes modd gwybod a oedd unrhyw un o'r llythyrau diwygiedig yn fwy, neu'n llai, effeithiol na'r llythyr safonol.



© Behavioural Insights Ltd

**Ffigur 3 – cyfran yr aelwydydd a wnaeth o leiaf un newid i'r gofrestr (Mawrth-Ebrill), yn ôl natur y driniaeth**




Percentage – Canran

Control – Rheoli   Social norm – Norm cymdeithasol   Diagram – Diagram   Diagram + envelope – Diagram ac amlen

Made no change – Dim newid   Made a change - Newid

Hefyd, aethom ati i ystyried effaith y llythyrau ar achosion o ychwanegu, dileu a diwygio'r gofrestr yn annibynnol ar ei gilydd (gweler Ffigurau 4 a 5). Cyflwynir y canlyniadau isod:


- Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y llythyr diagram a'r llythyr diagram a'r amlen symlach wedi gwneud y gofrestr yn fwy cywir drwy ddileu mwy o enwau o'r gofrestr, ond ni wnaethant gynyddu nifer y cofrestriadau.
- Llwyddodd y llythyr diagram (grŵp triniaeth 2) i gynyddu'n sylweddol (0.4 y cant) cyfran yr enwau a gafodd eu dileu o'r gofrestr (o 2.8 y cant i 3.2 y cant), o'i gymharu â'r llythyr safonol (rheoli) – ac roedd y gofrestr etholwyr yn fwy cywir o ganlyniad.
- Fodd bynnag, arweiniodd yr un llythyr at ostyngiad o 0.08 y cant yng nghyfran y diwygiadau.



© Behavioural Insights Ltd

- Llwyddodd y llythyr diagram a'r amlen symlach (grŵp triniaeth 3) i gynyddu cyfran yr enwau a gafodd eu dileu o'r gofrestr 0.3 y cant (o 2.8 y cant i 3.0 y cant), o'i gymharu â'r llythyr safonol (rheoli).
- Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y llythyrau o safbwynt ychwanegiadau at y gofrestr.

**Ffigur 4 – cyfran yr aelwydydd a ddiwygiodd y gofrestr (Mawrth-Ebrill), yn ôl natur y driniaeth**





Percentage – Canran

Control – Rheoli  Social norm – Norm cymdeithasol  Diagram – Diagram  Diagram + envelope – Diagram ac amlen



© Behavioural Insights Ltd

**Ffigur 5 – cyfran yr aelwydydd a aeth ati i ddileu enw o'r gofrestr (Mawrth-Ebrill), yn ôl natur y driniaeth**




Percentage – Canran

Control – Rheoli   Social norm – Norm cymdeithasol   Diagram – Diagram   Diagram + envelope – Diagram ac amlen

Roedd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb penodol yng nghyfraddau cofrestru pobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig. Nid oedd unrhyw ddata ar gael ar ethnigrwydd yr unigolion a wnaeth newidiadau i'r gofrestr. O ganlyniad, roedd modd cwblhau dadansoddiad dangosol yn unig drwy gymharu data ethnigrwydd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yn Abertawe (ar sail data cyfrifiad 2011) â'r newidiadau a wnaed i'r gofrestr yn yr ardaloedd hyn.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng y grwpiau triniaeth a'r grŵp rheoli o safbwynt y tebygolrwydd o wneud newidiadau i'r gofrestr yn ôl cyfran y bobl dduon a'r bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n byw mewn LSOAs.[67] Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod ardaloedd â chyfraddau uwch o bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o wneud newidiadau i'r gofrestr ar ôl derbyn unrhyw un o'r llythyrau o'i gymharu â'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is eraill.

Mae nifer o oblygiadau posibl i'r canfyddiadau hyn:



© Behavioural Insights Ltd

- Dim ond os oedd manylion cofrestru'r aelwyd yn anghywir roedd y llythyrau'n nodi bod angen i drigolion Abertawe weithredu. Mae'n bosibl bod aelwydydd yn credu nad yw bod yn bleidleisiwr yn ganlyniad digon gwerthfawr i oresgyn yr anghyfleustra o ddiweddaru'r gofrestr, neu fod manylion y rhan fwyaf o aelwydydd eisoes yn gywir ac nad oedd angen iddynt weithredu.[68] Yn anffodus, nid oedd data ar gael ar gywirdeb y gofrestr etholwyr yn Abertawe ar ddechrau'r treial i'n helpu i nodi a oedd y ffactor hwn yn berthnasol. Pe bai awdurdodau lleol yn gallu dod o hyd i ddata ar gywirdeb eu cofrestr, byddai'n helpu i lunio strategaethau sy'n ceisio cynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru.

- Mae'r gyfradd isel o newidiadau a wnaed i'r gofrestr yn dilyn pob un o'r pedwar llythyr yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol ystyried defnyddio dulliau cyfathrebu eraill (e.e. galwadau ffôn, negeseuon testun neu ddulliau wyneb yn wyneb) neu ganolbwyntio ar gyfathrebu â phobl ar adegau gwahanol o'r flwyddyn neu yn ystod cyfnodau o newid allweddol. Er enghraifft, pan fydd trigolion yn symud i dŷ newydd yn yr ardal neu pan fydd unigolyn yn troi'n 18 oed.

- Yn ôl y dadansoddiadau, mae ardaloedd â chyfraddau uwch o bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o wneud newidiadau i'r gofrestr ar ôl derbyn unrhyw un o'r llythyrau, o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Er bod y dadansoddiad hwn yn ddangosol yn unig, gallai awgrymu bod pobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy ymatebol i'r dull cyfathrebu hwn, neu fod eu manylion yn fwy tebygol o fod yn anghywir. Felly, mae gwella cywirdeb y gofrestr ymysg pobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig yn debygol o fod yn bwysig iawn, ac mae angen profi strategaethau eraill i ganfod dulliau o gyflawni hyn.

**Argymhelliad**

Rydym yn argymell y dylai gwaith yn y dyfodol i gynyddu nifer y pleidleiswyr sy'n cofrestru ganolbwyntio ar fanteisio ar ddulliau cyfathrebu yn ystod y canfasio blynyddol. Rydym yn gobeithio y bydd mwy o bobl yn gwneud newidiadau i'r gofrestr yn ystod y cyfnod hwn, a gall yr ymyriadau gael mwy o effaith o ganlyniad. Gallai hyn gynnwys datblygu canlyniadau'r prosiect hwn o safbwynt cynyddu cywirdeb y gofrestr drwy brofi effaith cynnwys diagram a gwneud newidiadau i'r amlen. Hefyd, rydym yn argymell bod angen gwneud rhagor o waith i archwilio effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu eraill (e.e. cyswllt wyneb yn wyneb a galwadau ffôn) neu gymhellion fel loterïau (gweler argymhellion Treial 1).


© Behavioural Insights Ltd

## Casgliad

Mae dirnadaeth o ymddygiad wedi cael effaith sylweddol ar feysydd polisi amrywiol, gan wella cost-effeithiolrwydd a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud i annog pleidleiswyr i gofrestru, ond mae modd gwneud llawer mwy yn y cyswllt hwn. Mae profi effaith ymyriadau gwahanol yn ganolog i ddull gweithredu TBI, ac fel mae'r treialon hyn yn ei ddangos, mae modd gwneud hyn yn gymharol hawdd ac yn gymharol rad cyn cyflwyno unrhyw ddull gweithredu.

Mae'r treialon hyn wedi darparu gwybodaeth bwysig i ni am broblem gymhleth. Gall y wybodaeth hon fod yn sylfaen gadarn i'n helpu i wella dulliau gweithredu yn y dyfodol a gwella ein dealltwriaeth o ymddygiad sy'n gysylltiedig â chofrestru i bleidleisio. O ystyried yr heriau a amlinellir yn yr adroddiad hwn, rydym yn argymell y dylai dulliau profi gwaith yn y dyfodol i gynyddu nifer y bobl sy'n cofrestru i bleidleisio ganolbwyntio ar fanteisio ar ddulliau cyfathrebu yn ystod y canfasio blynyddol, pan fydd gan aelwydydd rwymedigaeth gyfreithiol i ymateb.

Hefyd, rydym yn credu bod angen profi nifer o ddulliau eraill o ddeall ymddygiad yn y cyd-destun hwn, gan gynnwys y rhai a amlinellir yn yr adolygiad llenyddiaeth. Er enghraifft, datblygu gwaith blaenorol TBI i archwilio symiau a dulliau unrhyw gymhellion e.e. cymhellion nad ydynt yn rhai ariannol, a thrwy ganfod ffyrdd o gysylltu cofrestru â phrosesau sy'n bodoli eisoes er mwyn lleihau'r anghyfleustra sy'n gysylltiedig â'r broses. Yn ogystal, mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall y cysylltiad rhwng cofrestru i bleidleisio a phleidleisio fel canlyniad gwerthfawr, ac archwilio strategaethau newydd i annog pobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig i bleidleisio, drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu penodol ar gyfer yr unigolion hyn o bosibl.



© Behavioural Insights Ltd

## Atodiad 1: Copi o negeseuon e-bost Treial 1

### E-bost safonol (Grŵp Rheoli)

**Llinell Pwnc:** MYFYRWYR BANGOR

COFRESTRU ETHOLIADOL

Annwyl Myfyriwr

Mewn paratoad ar gyfer Etholiad Llywodraeth Cymru Mai 2016, mae Prifysgol Bangor yn cydweithio a Chyngor Gwynedd er mwyn hybu cofrestru etholiadol.

Mae'n bosib cofrestru ar-lein erbyn hyn drwy'r linc isod:

www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Byddwch yn barod i ddarparu eich dyddiad geni a Rhif Yswiriant Cenedlaethol.

Am fwy o wybodaeth, peidiwch ag oedi a chysylltu â 01286 679058 neu anfon e-bost i Etholiad@Gwynedd.gov.uk

============================

ELECTORAL REGISTRATION

Dear Student

In preparation for the May 2016 Welsh Government Election, Bangor University is working together with Gwynedd Council to encourage voter registration.

It is now possible to register to vote online via the link below:.

www.gov.uk/register-to-vote

Be ready to provide your date of birth and National Insurance Number

For further information, don't hesitate to call 01286 679058 or email Election@Gwynedd.gov.uk



© Behavioural Insights Ltd

**E-bost â graffig (Grŵp triniaeth 1)**

**Llinell pwnc yr e-bost:** Cofrestru i fod yn bleidleisiwr






© Behavioural Insights Ltd

**E-bost â graffig a ffigwr democrataidd (Grŵp triniaeth 2)**

**Llinell pwnc yr e-bost:** Cofrestru i fod yn bleidleisiwr






© Behavioural Insights Ltd

## Atodiad 2: Copi o lythyrau Treial 2

### Llythyr safonol (grŵp rheoli)

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

YOUR VOTE MATTERS
MAKE SURE YOU'RE IN

City & County of Swansea,
Civic Centre, Oystermouth Road,
Swansea, SA1 3SN

Call: 01792 636123
Email: **elections@swansea.gov.uk**
Web: **www.swansea.gov.uk**

Reference number: House_ID

The Occupier(s)
Address_Line_1
Address_Line_2
Address_Line_3
Address_Line_4
Address_Line_5

March 2016

**Is the electoral register information for this property correct?**

Dear Occupier(s),

We need to make sure that our electoral register records are correct. Being registered to vote gives you the right to participate at elections and could improve your credit rating.

**The following people are currently registered to vote at your address:**

| Name | | | Name | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Forename_1 | Initials_1 | Surname_1 | Forename_5 | Initials_5 | Surname_5 |
| Forename_2 | Initials_2 | Surname_2 | Forename_6 | Initials_6 | Surname_6 |
| Forename_3 | Initials_3 | Surname_3 | Forename_7 | Initials_7 | Surname_7 |
| Forename_4 | Initials_4 | Surname_4 | Forename_8 | Initials_8 | Surname_8 |

**NO ONE ELSE IS REGISTERED AT THIS PROPERTY**

- **If all the information is correct, you do not need to do anything.**
- **If any information is incorrect, contact us.**
  If some or all of the people listed no longer live at this address, or if any of the above information is incorrect, please contact us using the details above so that we can update the register.
- **If someone is not included, please register now.**
  Anyone living at this property who is over 16 years of age and not listed above should go to www.gov.uk/register-to-vote to apply to register. It is possible to have a paper registration form instead if you prefer - please contact us using the details above.

Your Polling Station is **Polling_Station**

If you have any difficulties getting to the Polling Station, you can apply for a Postal or Proxy Vote. More information on Electoral Registration and Postal/Proxy Voting is included with this letter.

Yours sincerely

**Jack Straw, Electoral Registration Officer**



© Behavioural Insights Ltd

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

MAE DY BLEIDLAIS DI'N CYFRIF
GWNA'N SIŴR DY FOD TI MEWN

Dinas a Sir Abertawe,
Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe SA1 3SN

Ffôn: 01792 636123
E-bost: **etholiadau@abertawe.gov.uk**
Gwefan: **www.abertawe.gov.uk**

Rhif cyfeirnod: House_ID

Y Deiliad/Deiliaid
Address_Line_1
Address_Line_2
Address_Line_3
Address_Line_4
Address_Line_5

Mawrth 2016

**A yw'r wybodaeth ar y gofrestr etholiadol yn gywir ar gyfer yr eiddo hwn?**

Annwyl Ddeiliad (Ddeiliaid),

Rydym angen gwneud yn siŵr bod ein cofnodion cofrestr etholiadol yn dal i fod yn gywir. Mae bod wedi'ch cofrestru i bleidleisio yn rhoi'r hawl i chi gymryd rhan mewn etholiadau, a gallai wella eich statws credyd.

**Ar hyn o bryd, mae'r bobl ganlynol wedi eu cofrestru i bleidleisio yn eich cyfeiriad chi:**

| Enw | | | Enw | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Forename_1 | Initials_1 | Surname_1 | Forename_5 | Initials_5 | Surname_5 |
| Forename_2 | Initials_2 | Surname_2 | Forename_6 | Initials_6 | Surname_6 |
| Forename_3 | Initials_3 | Surname_3 | Forename_7 | Initials_7 | Surname_7 |
| Forename_4 | Initials_4 | Surname_4 | Forename_8 | Initials_8 | Surname_8 |

<u>NID OES UNRHYW UN ARALL WEDI EI GOFRESTRU YN YR EIDDO HWN</u>

- **Os yw'r holl wybodaeth yn gywir, nid oes angen i chi wneud dim.**
- **Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, cysylltwch â ni.**
  Os nad yw rhai neu'r cyfan o'r bobl a restrir uchod yn byw yn y cyfeiriad hwn bellach, neu os unrhyw ran o'r wybodaeth uchod yn anghywir, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod, fel y gallwn ddiweddaru'r gofrestr.
- **Os nad yw rhywun wedi cael ei gynnwys, cofrestrwch nhw nawr.**
  Dylai unrhyw un sy'n byw yn yr eiddo hwn ac nad ydynt wedi eu rhestru fynd i www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio i wneud cais i gofrestru. Mae'n bosibl cael ffurflen gofrestru bapur yn lle hynny os yw'n well gennych; cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion uchod.

Eich gorsaf bleidleisio ar gyfer yr etholiadau nesaf yw Polling_Station

Os ydych yn cael trafferth cyrraedd yr orsaf bleidleisio, gallwch wneud cais am bleidlais trwy'r post neu bleidlais trwy ddirprwy. Mae mwy o wybodaeth yn y llythyr hwn am gofrestru etholiadol a phleidleisio trwy'r post/trwy ddirprwy.

Yr eiddoch yn gywir

**Jack Straw, Swyddog Cofrestru Etholiadol**



© Behavioural Insights Ltd

## Llythyr norm cymdeithasol (grŵp triniaeth 1)

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

YOUR VOTE MATTERS
DON'T LOSE IT

City & County of Swansea,
Civic Centre, Oystermouth Road,
Swansea, SA1 3SN

Call: 01792 636123
Email: **elections@swansea.gov.uk**
Web: **www.swansea.gov.uk**

Reference number: House_ID

The Occupier(s)
Address_Line_1
Address_Line_2
Address_Line_3
Address_Line_4
Address_Line_5

March 2016

**Please check the details in the table below are correct**

Dear Occupier(s)

To be a voter everyone needs to register individually. Please complete the steps below to ensure you and everyone in your house is registered to vote this year. Currently over 90% of eligible individuals in Swansea are registered to vote.

The following people are currently registered to vote at your address:

| Name | | | Name | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Forename_1 | Initials_1 | Surname_1 | Forename_5 | Initials_5 | Surname_5 |
| Forename_2 | Initials_2 | Surname_2 | Forename_6 | Initials_6 | Surname_6 |
| Forename_3 | Initials_3 | Surname_3 | Forename_7 | Initials_7 | Surname_7 |
| Forename_4 | Initials_4 | Surname_4 | Forename_8 | Initials_8 | Surname_8 |

- **If all the information is correct, you do not need to do anything**
- **If any information is incorrect, contact us at www.swansea.gov.uk/amiregistered or call 01792 636123**
- **If someone is missing, they should register today at: www.gov.uk/register-to-vote or call 01792 636123 for a registration form**

Your Polling Station is **polling_station**

Yours sincerely

**Jack Straw**
**Electoral Registration Officer**



© Behavioural Insights Ltd

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

Dinas a Sir Abertawe,
Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe SA1 3SN

Ffôn: 01792 636123
E-bost: **etholiadau@abertawe.gov.uk**
Gwefan: **www.abertawe.gov.uk**

Y Deiliad/Deiliaid
Address_Line_1
Address_Line_2
Address_Line_3
Address_Line_4
Address_Line_5

Rhif cyfeirnod: House_ID

Mawrth 2016

### Gwiriwch fod y manylion yn y tabl isod yn gywir

Annwyl Ddeiliad/Ddeiliaid

Er mwyn bwrw pleidlais, mae angen i bawb gofrestru'n unigol. Cwblhewch y camau isod i sicrhau bod pawb yn eich tŷ (gan gynnwys chi) wedi'i gofrestru i fwrw pleidlais eleni. Ar hyn o bryd, mae dros 90% o unigolion cymwys yn Abertawe wedi'u cofrestru i fwrw pleidlais.

Mae'r bobl ganlynol ar hyn o bryd wedi'u cofrestru i fwrw pleidlais yn eich cyfeiriad::

| Enw | | | Enw | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Forename_1 | Initials_1 | Surname_1 | Forename_5 | Initials_5 | Surname_5 |
| Forename_2 | Initials_2 | Surname_2 | Forename_6 | Initials_6 | Surname_6 |
| Forename_3 | Initials_3 | Surname_3 | Forename_7 | Initials_7 | Surname_7 |
| Forename_4 | Initials_4 | Surname_4 | Forename_8 | Initials_8 | Surname_8 |

- **Os yw'r holl wybodaeth yn gywir, nid oes rhaid i chi wneud dim byd.**
- **Os yw unrhyw wybodaeth yn anghywir, cysylltwch â ni yn www.abertawe.gov.uk/ydwiwedicofrestru neu ffoniwch 01792 636123**
- **Os oes rhywun ar goll, dylai gofrestru yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio neu ffoniwch 01792 636123 ar gyfer ffurflen gofrestru**

Eich gorsaf bleidleisio yw **polling_station**

Yn gywir

**Jack Straw**
**Swyddog Cofrestru Etholiadol**



© Behavioural Insights Ltd

## Llythyr diagram (grŵp triniaeth 2)

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

City & County of Swansea,
Civic Centre, Oystermouth Road,
Swansea, SA1 3SN

Call: 01792 636123
Email: elections@swansea.gov.uk
Web: www.swansea.gov.uk

The Occupier(s)
Address_Line_1
Address_Line_2
Address_Line_3
Address_Line_4
Address_Line_5

Reference number: House_ID

March 2016


**Please check the details in the table below are correct**

Dear Occupier(s)

To be a voter everyone needs to register individually. Please complete the process below to ensure you and everyone in your house is registered to vote this year. Currently over 90% of eligible individuals in Swansea are registered to vote.

**Does everyone lised below currently live at this address?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Forename_1 | Initials_1 | Surname_1 | Forename_5 | Initials_5 | Surname_5 |
| Forename_2 | Initials_2 | Surname_2 | Forename_6 | Initials_6 | Surname_6 |
| Forename_3 | Initials_3 | Surname_3 | Forename_7 | Initials_7 | Surname_7 |
| Forename_4 | Initials_4 | Surname_4 | Forename_8 | Initials_8 | Surname_8 |




**Jack Straw, Electoral Registration Officer**



© Behavioural Insights Ltd

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

Dinas a Sir Abertawe,
Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe SA1 3SN

Ffôn: 01792 636123
E-bost: etholiadau@abertawe.gov.uk
Gwefan: www.abertawe.gov.uk

Y Deiliad/Deiliaid
Address_Line_1
Address_Line_2
Address_Line_3
Address_Line_4
Address_Line_5

Rhif cyfeirnod: House_ID

Mawrth 2016

**Gwiriwch fod y manylion yn y tabl isod yn gywir**

Annwyl Ddeiliad/Ddeiliaid

Er mwyn bwrw pleidlais, mae angen i bawb gofrestru'n unigol. Cwblhewch y broses isod i sicrhau bod pawb yn eich tŷ (gan gynnwys chi) wedi'i gofrestru i fwrw pleidlais eleni. Ar hyn o bryd, mae dros 90% o unigolion cymwys yn Abertawe wedi'u cofrestru i fwrw pleidlais.

**Ydy pawb a restrir isod yn byw yn y cyfeiriad hwn ar hyn o bryd?**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Forename_1 | Initials_1 | Surname_1 | Forename_5 | Initials_5 | Surname_5 |
| Forename_2 | Initials_2 | Surname_2 | Forename_6 | Initials_6 | Surname_6 |
| Forename_3 | Initials_3 | Surname_3 | Forename_7 | Initials_7 | Surname_7 |
| Forename_4 | Initials_4 | Surname_4 | Forename_8 | Initials_8 | Surname_8 |

**Ydy pawb a restrir isod ar hyn o bryd yn byw yn y cyfeiriad hwn**

Ydy, mae popeth yn gywir → Does dim angen i chi wneud dim byd

Nac ydy, mae rhywbeth yn anghywir

Mae gwybodaeth yn anghywir → Ewch i www.abertawe.gov.uk/ydwiwedicofrestru neu ffoniwch 01792 636123


Mae rhywun ar goll → Dylai'r person nad yw ar y rhestr gofrestru yma: www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio neu ffonio 01792 636123 ar gyfer copi papur

**Jack Straw, Swyddog Cofrestru Etholiadol**



© Behavioural Insights Ltd

## Amlen symlach (grŵp triniaeth 3)






© Behavioural Insights Ltd

## Ôl-nodiadau


[1] BIT, 2014, East: Four simple ways to apply behavioural insights.

[2] Tainter, J., Taylor, T., Brain, R., a Lobo, J. (2015). Emerging Trends in the Social and Behavioral Sciences: An Interdisciplinary, Searchable, and Linkable Resource. *Emerging Trends in the Social and Behavioral Sciences: An Interdisciplinary, Searchable, and Linkable Resource*.

[3] Steele, C. M. (1988). The psychology of self-affirmation: Sustaining the integrity of the self. *Advances in experimental social psychology*, *21*, 261-302.

[4] Bryan, C. J., Walton, G. M., Rogers, T., a Dweck, C. S. (2011). Motivating voter turnout by invoking the self. *Proceedings of the National Academy of Sciences*, *108*(31), 12653-12656.

[5] Gerber, A. S., a Rogers, T. (2009). Descriptive social norms and motivation to vote: Everybody's voting and so should you. *The Journal of Politics*, *71*(01), 178-191.

[6] Y Comisiwn Etholiadol. (2014). The quality of the 2014 electoral registers in Great Britain. *Llundain: Y Comisiwn Etholiadol*.

[7] Y Comisiwn Etholiadol. (2011). Great Britain's electoral registers 2011. *Llundain: Y Comisiwn Etholiadol*.

[8] Ystadegau Etholiadol ar gyfer y DU: 2015. (2015). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

[9] Y Comisiwn Etholiadol (2014). The quality of the 2014 electoral registers in Great Britain.

[10] Y Comisiwn Etholiadol. (2008). Performance standards for Electoral Registration Officers in Great Britain.

[11] http://www.electoralcommission.org.uk/faq/voting-and-registration/what-is-individual-electoral-registration

[12] Y Comisiwn Etholiadol. (2015). Assessment of progress with the transition to Individual Electoral Registration.

[13] Gerber, A. S., a Green, D. P. (2000). The effects of canvassing, telephone calls, and direct mail on voter turnout: A field experiment. *American Political Science Review*, *94*(03), 653-663.

[14] Gerber, A. S., a Green, D. P. (1999). Does canvassing increase voter turnout? A field experiment. *Proceedings of the National Academy of Sciences*, *96*(19), 10939-10942.

[15] Braconnier, C., Dormagen, J. Y., a Pons, V. (2014). *Voter registration costs and disenfranchisement: experimental evidence from France*. Papur gwaith.

[16] Malhotra, N., Michelson, M. R., a Valenzuela, A. A. (2012). Emails from official sources can increase turnout. *Quarterly Journal of Political Science*, *7*(3), 321-332.

[17] Nickerson, D. W. (2007). Does email boost turnout?. *Quarterly Journal of Political Science*, *2*(4), 369-380.

[18] Nickerson, D. W. (2007). The ineffectiveness of e-vites to democracy field experiments testing the role of e-mail on voter turnout. *Social Science Computer Review*, *25*(4), 494-503.

[19] Bennion, E. A., a Nickerson, D. W. (2011). The Cost of Convenience An Experiment Showing E-Mail Outreach Decreases Voter Registration. *Political Research Quarterly*, *64*(4), 858-869.

[20] Malhotra, N., Michelson, M. R., Rogers, T., a Valenzuela, A. A. (2011). Text messages as mobilization tools: The conditional effect of habitual voting and election salience. *American Politics Research*, *39*(4), 664-681.

[21] BIT, 2014, East: Four simple ways to apply behavioural insights.

[22] BIT, 2014, East: Four simple ways to apply behavioural insights.

[23] Bettinger, E. P., Long, B. T., Oreopoulos, P., a Sanbonmatsu, L. (2009). *The role of simplification and information in college decisions: Results from the H&R Block FAFSA experiment* (No. w15361). National Bureau of Economic Research.

[24] Hallsworth, M., List, J. A., Metcalfe, R. D., a Vlaev, I. (2015). *The Making of Homo Honoratus: From Omission to Commission* (No. w21210). National Bureau of Economic Research.

[25] http://www.justice.gov/crt/national-voter-registration-act-1993-nvra

[26] Herman, J., Hess, D. R., a Groarke, M. (2008). A Review of Academic Literature on the Effectiveness of the National Voter Registration Act. *Washington, DC: Project Vote. Fel ar 30 Hydref 2014*.

[27] The Impact of The National Voter Registration Act of 1993 on the Administration of Elections for Federal Office 1995-1996. A Report to the 105th Congress.

[28] BIT, 2014, East: Four simple ways to apply behavioural insights.

[29] Edwards, P. J., Roberts, I. G., Clarke, M. J., DiGuiseppi, C., Wentz, R., Kwan, I., ... a Pratap, S. (2007). Methods to increase response rates to postal questionnaires. *The Cochrane Library*.

[30] https://www.nngroup.com/articles/f-shaped-pattern-reading-web-content/




© Behavioural Insights Ltd

[31] Pieters, R., a Wedel, M. (2004). Attention capture and transfer in advertising: Brand, pictorial, and text-size effects. *Journal of Marketing*, *68*(2), 36-50.
[32] Haynes, L. C., Green, D. P., Gallagher, R., John, P., a Torgerson, D. J. (2013). Collection of delinquent fines: An adaptive randomized trial to assess the effectiveness of alternative text messages. *Journal of Policy Analysis and Management*, *32*(4), 718-730.
[33] The Behavioural Insights Team. Hand written envelopes and self-assessment tax. (2012). Mimeo.
[34] Kahneman, D., a Tversky, A. (1979). Prospect theory: An analysis of decision under risk. *Econometrica: Journal of the econometric society*, 263-291.
[35] McNeil, B. J., Pauker, S. G., Sox Jr, H. C., a Tversky, A. (1982). On the elicitation of preferences for alternative therapies. *New England journal of medicine*, *306*(21), 1259-1262.
[36] Hallsworth, M., List, J., Metcalfe, R., a Vlaev, I. (2014). *The behavioralist as tax collector: Using natural field experiments to enhance tax compliance* (No. w20007). National Bureau of Economic Research.
[37] Dolan, P., Hallsworth, M., Halpern, D., King, D., Metcalfe, R., a Vlaev, I. (2012). Influencing behaviour: The mindspace way. *Journal of Economic Psychology*, *33*(1), 264-277.
[38] Webb, T. L., a Sheeran, P. (2006). Does changing behavioral intentions engender behavior change? A meta-analysis of the experimental evidence. *Psychological bulletin*, *132*(2), 249.
[39] Esposo, S. R., Hornsey, M. J., a Spoor, J. R. (2013). Shooting the messenger: Outsiders critical of your group are rejected regardless of argument quality. *British Journal of Social Psychology*, *52*(2), 386-395.
[40] Herman, J., Hess, D. R., a Groarke, M. (2008). A Review of Academic Literature on the Effectiveness of the National Voter Registration Act.*Washington, DC: Project Vote. Fel ar 30 Hydref 2014*.
[41] Hallsworth, M., Chadborn, T., Sallis, A., Sanders, M., Berry, D., Greaves, F., ... a Davies, S. C. (2016). Provision of social norm feedback to high prescribers of antibiotics in general practice: a pragmatic national randomised controlled trial. *The Lancet*, *387*(10029), 1743-1752.
[42] Huckfeldt, R. R., a Sprague, J. (1995). *Citizens, politics and social communication: Information and influence in an election campaign*. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
[43] Nickerson, D. W. (2008). Is voting contagious? Evidence from two field experiments. *American Political Science Review*, *102*(01), 49-57.
[44] Gerber, A. S., a Rogers, T. (2009). Descriptive social norms and motivation to vote: Everybody's voting and so should you. *The Journal of Politics*, *71*(01), 178-191.
[45] Gerber, A. S., a Rogers, T. (2009). Descriptive social norms and motivation to vote: Everybody's voting and so should you. *The Journal of Politics*, *71*(01), 178-191.
[46] Gerber, A. S., Green, D. P., a Larimer, C. W. (2008). Social pressure and voter turnout: Evidence from a large-scale field experiment. *American Political Science Review*, *102*(01), 33-48.
[47] Tainter, J., Taylor, T., Brain, R., a Lobo, J. (2015). Emerging Trends in the Social and Behavioral Sciences: An Interdisciplinary, Searchable, and Linkable Resource. *Emerging Trends in the Social and Behavioral Sciences: An Interdisciplinary, Searchable, and Linkable Resource*.
[48] Steele, C. M. (1988). The psychology of self-affirmation: Sustaining the integrity of the self. *Advances in experimental social psychology*, *21*, 261-302.
[49] Holbrook, A. L., a Krosnick, J. A. (2010). Social desirability bias in voter turnout reports tests using the item count technique. *Public Opinion Quarterly*, *74*(1), 37-67.
[50] Gerber, A. S., Green, D. P., a Larimer, C. W. (2008). Social pressure and voter turnout: Evidence from a large-scale field experiment. *American Political Science Review*, *102*(01), 33-48.
[51] Bryan, C. J., Walton, G. M., Rogers, T., a Dweck, C. S. (2011). Motivating voter turnout by invoking the self. *Proceedings of the National Academy of Sciences*, *108*(31), 12653-12656.
[52] Gollwitzer, P. M. (1999). Implementation intentions: strong effects of simple plans. *American psychologist*, *54*(7), 493.
[53] Owens, S. G., Bowman, C. G., a Dill, C. A. (2008). Overcoming Procrastination: The Effect of Implementation Intentions1. *Journal of Applied Social Psychology*, *38*(2), 366-384.
[54] Gollwitzer, P. M. (1999). Implementation intentions: strong effects of simple plans. *American psychologist*, *54*(7), 493.
[55] Nickerson, D. W., a Rogers, T. (2010). Do you have a voting plan? Implementation intentions, voter turnout, and organic plan making. *Psychological Science*, *21*(2), 194-199.
[56] Nickerson, D. W., a Rogers, T. (2010). Do you have a voting plan? Implementation intentions, voter turnout, and organic plan making. *Psychological Science*, *21*(2), 194-199.


© Behavioural Insights Ltd

[57] Nickerson, D. W., a Rogers, T. (2010). Do you have a voting plan? Implementation intentions, voter turnout, and organic plan making. *Psychological Science*, *21*(2), 194-199

[58] John, P., MacDonald, E., a Sanders, M. (2015). Targeting voter registration with incentives: A randomized controlled trial of a lottery in a London borough. *Electoral Studies*, *40*, 170-175.

[59] Titmuss, R. M. (1974). *Social policy*. Llundain: Allen ac Unwin.

[60] Titmuss, R. M. (1974). *Social policy* (tt. 1-2). Llundain: Allen ac Unwin.

[61] Mae hyn yn cyfeirio at unigolion sy'n derbyn yr ohebiaeth/proses safonol a oedd ar waith cyn dechrau'r treial.

[62] Bryan, C. J., Walton, G. M., Rogers, T., a Dweck, C. S. (2011). Motivating voter turnout by invoking the self. *Proceedings of the National Academy of Sciences*, *108*(31), 12653-12656.

[63] Huckfeldt, R. R., a Sprague, J. (1995). *Citizens, politics and social communication: Information and influence in an election campaign*. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

[64] Gerber, A. S., a Rogers, T. (2009). Descriptive social norms and motivation to vote: Everybody's voting and so should you. *The Journal of Politics*, *71*(01), 178-191.

[65] BIT, 2014, East: Four simple ways to apply behavioural insights.

[66] Bryan, C. J., Walton, G. M., Rogers, T., a Dweck, C. S. (2011). Motivating voter turnout by invoking the self. *Proceedings of the National Academy of Sciences*, *108*(31), 12653-12656.

[67] Nid oedd modd categoreiddio aelwydydd ar sail ethnigrwydd, felly er mwyn archwilio effaithiau'r llythyrau ar sail ethnigrwydd, aethom ati i ddadansoddi data o gyfrifiad 2011. Mae'r cyfrifiad yn cynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd mewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs). Wedyn, cymharwyd cyfraddau cofrestru rhwng LSOAs. Mae hwn yn ddadansoddiad dangosol yn unig, ac mae'n bosibl bod yna resymau eraill am lefelau cofrestru gwahanol mewn ardaloedd lle mae mwy o bobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig yn byw.

[68] Nid oedd gennym ddata ar gywirdeb presennol y data ar ddechrau'r treial.



© Behavioural Insights Ltd